**EITEM RHIF 19**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 23 Medi 2020 |
| **TEITL** | **DIWEDDARIAD AR BLAS TAN Y BWLCH** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | I gael diweddariad gyda'r bwriad o gytuno ar Gyfarfod Arbennig o’r Awdurdod ym mis Hydref i ystyried opsiynau ar gyfer Plas Tan y Bwlch |

## 1 CEFNDIR

1.1 Yng nghyfarfod diwethaf yr Awdurdod ar 15 Gorffennaf 2020 wrth ystyried opsiynau ar gyfer dyfodol Plas Tan y Bwlch, penderfynodd yr Awdurdod fel a ganlyn:

1.1.1 O ystyried nifer y staff a allai gael eu heffeithio, bod yr Awdurdod yn dechrau ar y broses o gynnal ymgynghoriad ffurfiol gyda staff a'r Undebau Llafur ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch.

1.1.2 Bod Bwrdd Plas, gan weithio ar y cyd â Chadeiryddion yr Awdurdod ac Is-gadeirydd yr Awdurdod yn ystyried modelau busnes amgen (gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau eraill) i ystyried faint o swyddi y gellir eu harbed. Bod yr Awdurdod yn ystyried y mater ymhellach yn ei gyfarfod o'r Awdurdod ym mis Medi oni bai bod cyfarfod arbennig o'r Awdurdod yn cael ei alw cyn y dyddiad hwnnw i drafod y mater.

1.1.3 Yn y cyfamser bod y gwelliannau arfaethedig a gymeradwywyd yn flaenorol gan yr Awdurdod yn mynd rhagddynt er mwyn gosod y ganolfan yn y sefyllfa orau bosibl i barhau â rhyw fath o fodel busnes amgen neu weithio mewn partneriaeth ag eraill.

## 2 TRAFODAETHAU BWRDD PLAS TAN Y BWLCH

2.1 Ers y cyfarfod hwnnw mae Bwrdd Plas Tan y Bwlch wedi cyfarfod ar ddau achlysur gyda Chadeiryddion yr Awdurdod ac Is-gadeirydd yr Awdurdod.

2.2 Yn y cyfarfod cyntaf ar 19 Awst 2020, ystyriodd y Bwrdd ymatebion y staff i'r ymgynghoriad ffurfiol ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch yn ogystal â chwmpasu senarios posibl ar gyfer ailddechrau busnes ar ryw ffurf neu'i gilydd. Yn y cyfarfod hwnnw, adroddwyd hefyd bod trafodaethau gyda darpar bartneriaid wedi digwydd yn anffurfiol. Roedd pryder na fyddai unrhyw waith a wneir i'r eiddo yn ychwanegu gwerth i unrhyw bartner posibl ac y byddai'n well gohirio buddsoddi yn yr eiddo nes bod y sefyllfa'n gliriach. Yn unol â hynny, penderfynodd y Bwrdd argymell i'r Awdurdod na ddylai'r gwaith ailddatblygu fynd yn ei flaen ar hyn o bryd. O ganlyniad, gohiriwyd y gwaith ailddatblygu hyd nes yr ystyrir yr adroddiad hwn.

2.3 O ran y cwestiwn sydd a wnelo senarios o ailddechrau busnes yn y Plas, ystyriodd y Bwrdd opsiynau yn amrywio o fusnes fel arfer i gau'n llawn. Cytunwyd bod angen cyfarfod pellach o'r Bwrdd i drafod achos busnes posibl dros sefydlu busnes Gwely a Brecwast yn y cyfamser oherwydd teimlwyd bod yna deilyngdod i’r opsiwn hwn oherwydd byddai'n cadw rhai staff ac yn lleihau risg i'r Awdurdod ar yr un pryd.

2.4 Yn y cyfamser, yn dilyn ymgynghoriad â Chadeirydd Bwrdd Plas Tan y Bwlch, penderfynwyd ceisio ailagor y Ganolfan ar y sail hon er mwyn sefydlu beth yw'r potensial o ran y galw am lety o'r fath. Mae'r llety yn cael ei osod trwy Airbnb yn unig ar hyn o bryd ac mae'r adroddiadau cychwynnol yn dangos bod galw mawr ac mae'r Plas yn llawn i'w gapasiti ar y penwythnos masnachu cyntaf ar benwythnos yr 11eg i'r 13eg o Fedi ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r Plas wedi'i archebu'n llawn ar gyfer penwythnos 18fed i 20fed Medi hefyd.

2.5 Cyfarfu Bwrdd Plas Tan y Bwlch unwaith eto ddydd Gwener 11 Medi i drafod busnes ar gyfer y dyfodol ymhellach. Yn y cyfarfod hwnnw cyflwynwyd achos busnes iddynt dros weithredu'r ganolfan fel llety tebyg i Wely a Brecwast, a dangosodd hynny fod yna botensial i redeg gwasanaeth felly heb fawr o gost i'r Awdurdod ac o fewn y gyllideb a bennwyd gan yr Awdurdod ar gyfer rhedeg y Plas.

2.6 Fodd bynnag, ystyriodd Bwrdd Plas Tan y Bwlch efallai na fyddai'r ffigurau a gyflwynwyd yn asesu'n fanwl gywir y gwir risg o redeg y Ganolfan ar y sail hon, yn enwedig ar y ffigurau meddiannaeth a ddyfynnwyd. Gofynnodd y Bwrdd i ystod o ffigurau meddiannaeth gael eu paratoi i alluogi'r Awdurdod i ystyried y risg ar sail 'y senario waethaf i'r senario orau'. Fodd bynnag, nid oedd digon o amser i baratoi adroddiad o'r fath ar gyfer y cyfarfod hwn ac felly cynigir cynnal

Cyfarfod Awdurdod Arbennig ym mis Hydref i drafod y mater hwn ymhellach. Erbyn mis Hydref, wrth gwrs, bydd mwy o wybodaeth wrth law ar ba mor llwyddiannus y mae Plas wedi bod yn ei ymdrech newydd ac felly fe allai alluogi'r Awdurdod i gael gwell dealltwriaeth o ba ffigur meddiannaeth sy'n debygol o fod yn gywir.

2.7 O ystyried datblygiadau diweddar o ran y sefyllfa ddirywiol gyda phandemig Covid, roedd y Bwrdd hefyd o'r farn ei bod yn ddoeth meddwl sut y gall Plas ymdopi gyda chyfnod llwyrgloi arall o bosib a cholli busnes yn gyfan gwbl a chynigir y dylid ymdrin â'r mater hwn hefyd mewn Cyfarfod Arbennig o'r Awdurdod ym mis Hydref.

2.8 Efallai y bydd modd symud i lety tebyg i Wely a Brecwast yn y tymor byr i'r tymor canolig ond heb os, bydd rhyw elfen o risg a bydd angen i'r Awdurdod asesu hynny'n llawn. Bydd ymgymryd â'r lefel hon o weithgaredd yn golygu bod model busnes symlach yn cael ei ddefnyddio ac o'r herwydd mae'n anochel y bydd yna elfen o ailstrwythuro staff a chaiff hynny ei drafod yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Hydref.

**GOBLYGIADAU ADNODDAU**

Nid oes gan yr adroddiad hwn ynddo'i hun oblygiadau sylweddol o ran adnoddau ar hyn o bryd.

**ARGYMHELLION**

3.1 Peidio â bwrw ymlaen â'r gwaith ailddatblygu ar hyn o bryd o ystyried y datblygiadau ers i'r Awdurdod gwrdd ddiwethaf.

3.2 Ystyried adroddiad pellach mewn Cyfarfod Arbennig o'r Awdurdod ym mis Hydref i ystyried yr opsiynau ar gyfer Plas Tan y Bwlch ymhellach i gynnwys ystod o senarios o ran meddiannaeth yn ogystal ag opsiynau ar gyfer y Plas pe bai yna gyfnod llwyrgloi pellach.

**PAPURAU CEFNDIR**